

# Yr Hen Glochyddion eto

Cefais fwynhad wrth ddarllen 'HELFA'R RHWYD' (Edgar Jones) lle mae'n sôn am blwyf Llanbabo a'r fynwent sydd yno ers tua mil a hanner o flynyddoedd. Mynwent Geltaidd gron, heb gongl i'r Diafol lechu. Rwyf wedi gweld ambell un arall ar y ffurf yma ac yn grwn am yr un rheswm. Mynwent fechan sydd yn Llanbabo o gofio ei hoed a'r holl gladdu ar hyd y blynyddoedd, ac y mae hyn oherwydd yr ailgladdu a gymerai le yn yr hen feddau wedi can mlynedd fyned heibio oddi ar y cladd olaf. Byddai'r esgyrn yn cael eu codi a'u cadw am beth amser, ac yna eu llosgi mewn pentyrrau. Hen arferiad, ac o hyn y daw yr enw 'BONFIRE' mae'n debyg - *bone fire*. Yr un ffaith a roddodd gychwyn i'r arfer o wneud gŵyl flodau fawr gyda gorymdaith a *floats* heirdd ar ynysoedd y Môr Canol, ac yna eu pentyrru a'u llosgi. Parhau â'r hen ddefod o gael amser arbennig ddydd llosgi esgyrn eu cyndeidiau.

Rhyw dri chan mlynedd yn ôl tra roedd clochydd Llanbabo yn agor bedd trawodd ei gaib yn erbyn carreg enfawr. Er syndod iddo a phawb arall tybient ei fod wedi dod o hyd i fedd PABO oedd yn troedio'r ardal yn y cweched ganrif. Mae llun brenin wedi ei gerfio ar y garreg efo coron ar ei ben a theyrnwialen yn ei law, ynghyd ag ôl caib yr hen glochydd. At hyn mae geiriau mewn Lladin sydd yn dweud 'Y Pabo Post Prydain. *Cyffeswr. Gruffydd ab Ithel sy'n cyflwyno'r cerflun.*' Erbyn hyn gwyddom nad carreg fedd Pabo mo hon ond carreg a fu'n pwyso yn erbyn mur yr eglwys ac yn gwasanaethu fel allor i'r offeiriad offrymu'r offeren er lles enaid Gruffydd ab Ithel fu'n troedio'r ardal yn y bedwaredd ganrif ar ddeg.

Mae'n debyg mai llawr 'gro' oedd i Eglwys Cybi yn 1751, yn ôl llyfr cownt William Owen, Yswain Penrhos. Mae ynddo eitem yn dangos hyn. Fel rheol yr arferiad oedd taenu brwyn a gwellt ar y llawr pridd, a gwaith y clochydd oedd glanhau'r eglwys a thaenu'r brwyn a gwellt glân yn enwedig erbyn y dyddiau gŵyl. Ceir hanes am yr hwyf a'r miri fyddai cyn yr ŵyl Mabsant pryd roedd y bobol ifanc yn cael rhwydd hynt i addurno'r eglwys a'r fynwent. Yn y llythyrau sydd wedi eu cyhoeddi yng Nghylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Meirionnydd 1972 sonnir am Eglwys Dolgellau, lle mae'n dweud mai llawr pridd oedd iddi, a newidiwyd y brwyn 'rhyw unwaith y flwyddyn'. Byddai'r rhelyw o'r gynulleidfa yn eistedd ar y llawr neu'n sefyll, ond byddai seddau i'r yswain a'i deulu ac i'r byddigion, a'r rheini a'u henwau arnynt yn aml, nid fod y cymunwyr eraill yn ymwybodol o hyn gan nad oedd llawer ohonynt yn gallu darllen. Deuai'r cŵn i mewn hefyd yn aml, gan fod llyfr cownt William Owen yn nodi eu bod wedi cael gefail gŵn newydd i'r eglwys.

Yn ôl pob sôn, mae Eglwys Llanfigael, Môn yn hynod gan nad oes llawer o foderneiddio wedi bod arni (diolch am hynny) ac wrth droi i mewn cawn weld sut oedd Eglwys yn edrych yn y ddeunawfed ganrif. Mae rheiliau'r allor yn uchel, a hyn am fod cŵn yn dod i'r gwasanaeth efo'i Meistri. Roedd yn rhaid eu gwahardd rhag mynd at yr allor, wrth gwrs, ac o sylwi ar batrwm yr eglwys cawn weld sut. Mae'r



Eglwys Llanfigael.

pulpud yn uchel, a grisiau yn arwain ohono i lawr at ddesg y gwasanaethau. Wrth droed y pulpud mae 'sedd y clochydd' - lle hwyfus dros ben iddo allu neidio am yr efail gŵn oedd yno i'w taflu allan pan fyddai pethau yn mynd o'u lle efo nhw. Yn ôl Tom Jones, Rosebery Avenue, Llandudno, roedd yna fflapen yn y drws ar wal ogleddol ambell eglwys, a honno'n agor ond at allan ac yntau'n gyrru'r cŵn allan trwy honno. Credai rhai na wna'r fflapen agor ar i mewn rhag ofn i'r diafol ddod yno!

Yn 1830 cafodd clochydd Eglwys Sant Dyfnog ym mhlwy Llanrhaeadr ym Mochnant brofiad rhyfedd pan yr torri bedd i gladdu James Parry. Yn ddamweiniol symudodd gaead arch Ann Parry, ei fam oedd wedi ei chladdu yn 1787 - 43 blynedd ynghynt. Yn ei fraw penderfynodd beidio â sôn wrth neb, a hefyd o barch i'r teulu mae'n siŵr. Ymhen tair blynedd bu'n rhaid agor y bedd drachefn, at gladdu gwedd James Parry, ac yn fwiadol agorodd gaead arch Ann Parry, a gweld fod y corff mewn cyflwr perffaith eto. Roedd yn union yr un fath a'r diwrnod y'i claddwyd, a'r blodau yn ffres. Y tro hwn galwodd yr offeiriad at y bedd, a daeth eraill yno i sylu hefyd. Yn ôl yr hanes roedd Ann Parry yn wraig dda a rhinweddol.

Yn ei ethygl 'Canu'r Gymru Goch' (Rhif 30 *Y Casglwr*) mae Dr Meredydd Evans yn rhoi rhyw bwt difyr i ni wrth ymdrin â'r hen gân werin 'Wrth fynd hefo Deio i Dywyn'. Mae'n addef iddo dybio, fel sawl un arall a minnau yn eu plith, mai at bentref Brithdir ger Dolgellau y cyfeirir ato yn y pennill cyntaf. Ond roedd Mrêd wedi gweld fod Henri Myllin wedi cyflwyno'r hanes yn Rhifyn X1 yng Nghylchgrawn Cymru. Ymddengys mai trwy John Griffiths, clochydd Llanrhaeadr ym Mochnant y daw yr eglurhad. Roedd yn adnabod yr awdur, James Morris Jones (Iago Mochnant), ac enw'r 'Mr Jones' a anfonodd y ddau i Dywyn oedd Mr R. Jones, Uchelwr, RHOS-Y-BRITHDIR. Mae'n debyg mai saer maen oedd John Griffiths y clochydd gan iddo ddweud ei fod wedi torri englynion o waith Iago Mochnant ar garreg fedd ym Mynwent Llanarmon, Mynydd Mawr.

Peter Roberts (1760-1819) awdur 'The Popular Antiquities' (1815) a 'The Chronicles of the Kings of Britain' cyfieithiad o waith Sieffre o Fynwy o Lyfr Tysilio (1811) oedd

ficer Llanarmon Dyffryn Clwyd yn 1810.

Mae Robin Gwyndaf, Amgueddfa Werin Sain Ffagan yn sôn am y gân y byddai llawer o ganu arni ers talwm - 'Y Person a'r Clochydd' ac yn dweud y byddai'n dda cael gafael ar gopi (L.I.G.50). Gafodd o sgwn i - do, mae'n siŵr. Yn ôl fel roedd yn dweud byddai Robert Price Roberts, Llanddulas yn canu llawer arni.

Yn ei ddydd daeth William Jones (Bleddyn) yn chwilotwr a hynafiaethydd o fri, a thrwy ddod i wybod amdano down i ddeall ei fod yn fab i William Jones, clochydd Beddgelert. Yn wir mae hil llawer hen glochydd wedi dod yn bobl enwog, ac wedi ymhyfrydu yn eu gwreiddiau - fel y dylem bawb ohonom sydd yn gysylltiedig â'r gwŷr yma a wnaeth ymdrech mor lew i gydio mewn unrhyw fath o addysg a ddeuai i'w rhan, a dod yn ddigon dysgedig i gyfrannu i ddiwylliant eu cymdogaeth, o leiaf, os nad i'w gwlad, bawb ohonynt.

Ac yng nghasgliad Robin Gwyndaf am hanes Eirwyn Pontshan y gwelwn fel y byddai yn dewis dod a'i nosweithiau o ddifyrru cynulleidfa oedd i ben wrth adrodd telyneg J. J. Williams 'fel y boch chi'n galler dangos i'r bobol mai nid y dwli yn unig odd gyda chi drwy gydol y nos...'

Clywais ganu cloch y llan  
A gwelais dorf yn cyrchu'r fan  
A'r hen offeiriad yn ei wyn  
Yn Llanfihangel Genau'r Glyn.  
Gwelais feirwon rif y gwllith,  
Yn cysgu'n dawel tan yr ynn  
Yn Llanfihangel Genau'r Glyn...'

A dyna'r gan am 'Glochydd Biwmares', er nad wyf wedi cael ei chlywed, ond mae rhywun yn cyfeirio ati yn aml.

Roeddynt yn wŷr eithaf gwybodus, ac yn medru darllen ac ysgrifennu fel y soniais. Gan Griffith Jones, clochydd eglwys Capel Curig y cafodd John Jones, Talsarn ei wersi cyntaf mewn Sol-ffa a William Hugh Williams, clochydd Llanarmon oedd un o arloeswyr y Tonic Sol-ffa. Clochydd arall yn Llanarmon oedd Ioan Garmon (John Jones) ac yn dal swyddi eraill megis ysgolfeistr, casglwr trethi a cherfiwr. Dywedir am Dafydd Jones, Trefriw, ei fod yn dafarnwr; saer; gwneuthurwr eirch; tynnwr dannedd; ac 'ysgolhaig yr ardal'. Dywedodd Sarnicol amdano fod ganddo lyfrau Lladin y byddai'n eu darllen ond heb eu deall! Cawn hefyd fod Dafydd Jones, neu Dewi Fardd y